

National Assembly for Wales
The Translation and Reporting Service



The National Assembly for Wales is the democratically elected body that represents the interests of Wales and its people, makes laws for Wales and holds the Welsh Government to account.

The Translation and Reporting Service

The Translation and Reporting Service is responsible for:

- providing interpretation at Plenary and committee meetings and other National Assembly events
- translating text from Welsh to English and from English to Welsh, and
- producing an edited verbatim transcript of the proceedings of the National Assembly for Wales.

Interpretation

The team provides an interpretation service in Assembly Plenary and committee meetings and in various other events, including formal and informal occasions arranged on behalf of the Presiding Officer, party group meetings, conferences, receptions, private and informal committee meetings, staff meetings, and many other events in the Senedd, Tŷ Hywel, throughout Wales and beyond. The aim of the service is to ensure that everyone is able to understand and participate in all Assembly deliberations. To that end, there is an interpretation into English of every contribution made in Welsh.

Translation

The team also provides a text translation services (Welsh to English and English to Welsh) for Assembly Members and Assembly officials, edits and proofreads translations undertaken by departments, offers a text-checking service, standardises and manages terminology, and works with the Government on further standardising terminology. The work involves a wide range of documents, ranging from policy documents and reports on committee inquiries to job advertisements, press releases, and committee papers and agendas.

Reporting

The Record of Proceedings is the National Assembly for Wales's version of Hansard. It is a substantially verbatim report of Plenary proceedings in the Chamber and of Assembly committee meetings, and it is edited to ensure accuracy and consistency and to avoid any unnecessary repetition in the text. The full text of motions and amendments tabled by Assembly Members and a record of votes are also included. The Record of Proceedings is published online only:

<http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-record-of-proceedings.htm>

The Record is a valuable source of information for anyone who wishes to know what has taken place in the Assembly. You can use it to find out which Members voted for or against a motion and what they had to say about it. You can read your local Assembly Members' contributions. The Record will also be useful in the future as it reflects the significant issues of the day and the changing attitudes of society. It will also help future generations to form a picture of how we live our lives and why particular decisions were made.

If you'd like to know more, feel free to contact us:

The Translation and Reporting Service
The National Assembly for Wales
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA
(029) 2089 8485
translationandreporting@wales.gsi.gov.uk





Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn gyfrifol am:

- gyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd llawn a phwyllgorau'r Cynulliad, a digwyddiadau eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- cyfieithu testun o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg, a
- llunio cofnod gair am air ac wedi ei olygu o drafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyfieithu ar y pryd

Mae'r tîm yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yng Nghyfarfodydd Llawn a phwyllgorau'r Cynulliad ac mewn amryw o ddigwyddiadau eraill, gan gynnwys achlysuron ffurfiol ac anffurfiol a drefnir ar ran y Llywydd, cyfarfodydd y pleidiau, cynadleddau, derbyniadau, cyfarfodydd pwyllgor preifat ac anffurfiol, cyfarfodydd staff, a llawer o ddigwyddiadau eraill yn y Senedd, yn Nhŷ Hywel a ledled Cymru a thu hwnt. Diben y gwasanaeth yw sicrhau bod pawb yn medru deall a chymryd rhan yn holl drafodion y Cynulliad. I'r perwyl hwn, caiff pob cyfraniad a wneir yn Gymraeg ei gyfieithu ar y pryd i Saesneg.

Cyfieithu testun

Mae'r tîm hefyd yn darparu gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig (Cymraeg/Saesneg a Saesneg/Cymraeg) i Aelodau'r Cynulliad a swyddogion y Cynulliad, yn golygu a phrawffdarllen cyfieithiadau a wneir gan yr adrannau, yn cynnig gwasanaeth gwirio testun, yn safoni a rheoli terminoleg, ac yn cydweithio â'r Llywodraeth i safoni termau ymhellach. Mae'r gwaith yn cynnwys amrywiaeth eang o destunau sy'n amrywio o ddogfennau polisi ac adroddiadau ar ymchwiliadau pwyllgorau i hysbysebion swyddi, datganiadau i'r wasg, agendâu a chofnodion pwyllgorau.

Cofnodi

Cofnod y Trafodion yw fersiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Hansard. Mae'n gofnod gair am air ac wedi'i olygu o drafodion y Cyfarfodydd Llawn yn y Siambr a chyfarfodydd pwyllgor y Cynulliad, a chaiff ei olygu i sicrhau cywirdeb a chysondeb ac i osgoi ailadrodd diangen yn y testun. Caiff testun llawn cynigion a gwelliannau a gyflwynir gan yr Aelodau a chofnodion y pleidleisio hefyd eu cynnwys. Cyhoeddir y Cofnod ar y we yn unig:

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-record-of-proceedings.htm>

Mae'r Cofnod yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr. Gall unrhyw un sydd am wybod beth yn union sydd wedi digwydd yn y Cynulliad ei ddefnyddio. Gallwch ganfod pa Aelodau a bleidleisiodd o blaid neu yn erbyn cynnig a'r hyn yr oedd ganddynt i'w ddweud amdano. Gallwch ddarllen cyfraniadau eich Aelod Cynulliad lleol. Bydd y Cofnod hefyd yn ddefnyddiol yn y dyfodol gan ei fod yn adlewyrchu agweddau ar faterion pwysig y dydd a sut mae syniadau cymdeithas yn newid. Bydd hefyd yn helpu cenedlaethau i ddod i lunio darlun o sut yr ydym yn byw a pham y cafodd penderfyniadau penodol eu gwneud.

Os hoffech wybod mwy, mae croeso i chi gysylltu â ni:

Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi

